"A"

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o Gyfarfod Blynyddol Cyngor Cymdeithas Botwnnog a gynhaliwyd Nos Fawrth, 13eg Mai, 2024 o 7.30 y.h. hyd 7.45 y.h. yn Neuadd Goffa, Sarn Mellteyrn

Presennol: Y Cynghorydd Siôn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Michael Strain (Is-Gadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Gwenan Griffiths, Dylan Parry Joens, Glyn Roberts, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan J. Williams
Ymddiheuriad: Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)

1. **ETHOL CADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2024/25**
Penderfynwyd ethol yr Is-Gadeirydd, Y Cynghorydd Michael Strain (Ward Bryncroes), yn Gadeirydd am y flwyddyn 2024/25.

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2024/25**
Penderfynwyd ethol Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (Ward Botwnnog) yn Is-Gadeiryddes am y flwyddyn 2024/25.

3. **CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL**

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd 9fed Mai, 2023.
Cynigiwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eilwyd gan Y Cynghorydd Glyn Roberts gyda phawb yn unfrydol.

4. **CYFLWYNO ADRODDIADAU**

(a) Cadeirydd y flwyddyn 2023/2024

Adroddiad y Cadeirydd, Y Cynghorydd Siôn Williams. Diolchodd y Cadeirydd am y fraint o gael bod yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn ac hefyd am y cyd-weithrediad dderbyniodd gan yr aelodau a'r Clarc er sicrhau fod y gwaith yn cael ei gyflawni er budd yr etholwyr. Dymunodd yn dda i'w olynydd.

(b) Y Clarc

Yr un modd diolchodd y Clarc am y gefnogaeth dderbyniodd gan y Cadeirydd a'r aelodau yn ystod y flwyddyn a dywedodd ei bod yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth sydd ar gael bob amser - ni fyddai'n bosibl gwneud y gwaith heb hyn.

(c) Y Cynghorydd Sirol
Adroddiad y Cynghorydd Gareth Williams, aelod Pen Llyn ar Gyngor Gwynedd – copi'n amgaeedig.

"1"

(ch) Cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog

Adroddiad Y Cynghorydd Gwenan Griffiths, cynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Pont-y-Gof, Botwnnog – copi'n amgaeedig. "2"

Diolchwyd i'r rhai gyflwynodd adroddiadau.

5. MANTOLEN ARIANNOL Y CYNGOR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH, 2024

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG 31ain MAWRTH, 2024

Balans yn y banc 31/3/2023	8,145.80	Balans yn y llyfr arian 01/04/23	9,934.25
Llai sieciau na gyflwynwyd 2023/24 (siec 200795, 200820, 200822, 200823	391.00	Praesept	6,500.00
		Incwm arall	1,302.12
		Is-gyfanswm	**17,736.37**
		Llai costau staff	£2,100.00
		Llai taliadau eraill	7,881.57
Cyfanswm 31/3/24	**£7,754.80**	Yn y banc 31/3/24	**7,754.80**

6. CYNRYCHIOLWYR

Penderfynwyd ethol y rhai a ganlyn i wasanaethu ar:

Is-bwyllgor Cynllunio – Cadeirydd y Cyngor ynghyd ag aelodau'r Ward lle bo'r cais.

Un Llais Cymru – Y Cynghorydd Sion Williams.

7. RHEOLAU SEFYDLOG, RHEOLIADAU ARIANNOL AG ASESIAD RISG

Penderfynwyd mabwysiadau a gweithredu'n unol a'r rheoliadau uchod a'r rhestr asesiad risg.

8. HAWL I DDERBYN LWFANS FEL CYNGHORYDD

Penderfynwyd ddatgan nad oedd yr aelodau am dderbyn y £150.00 o lwfans yr oedd hawl ganddynt ei dderbyn yn unol ag adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Annwyl Aelodau,

Blwyddyn arall wedi pasio fel y gwynt!

Dymunaf ddiolch yn fawr i chi eto eleni am gael y cyfle i fynychu'r cyfarfodydd gyda chi.

Mae'n braf iawn gallu cyd-weithio gyda Cyngor mor bositif a chefnogol i'r Ardal ac i'r Gymuned.

Yn anffodus gan fod Cyngor Aberdaron yn cael ei gynnal ar yr un noson o bob mis, 'rwyf yn gorfod mynychu'r ddau Gyngor bob yn ail mis o ran tegwch i bawb.

Ar ôl saith mlynedd bellach fel Cynghorydd Sir, gallaf ddatgan yn berffaith onest fy mod yn dal i fwynhau y profiad yn fawr iawn.

Datganaf yn onest unwaith eto mai fy mraint mwyaf yw cael cyfle i helpu fy ardal fy hunan-trigolion, ysgolion a Chynghorau Cymdeithas Pendraw Llŷn.

Mae'r sialens yn llawer iawn mwy heriol ers uno'r Wardiau yn 2022 – ond 'rwyf wir yn mwynhau'r profiad o hyd ac yn parhau i roi cant y cant i'r Swydd.

Diolch i chi i gyd am roi eich amser i ddarllen fy adroddiad.

Gareth

Adroddiad Cyngor Plwy, 13/5/24

Cafwyd blwyddyn heriol a llwyddiannus yn Mhont y Gof eleni gyda ymweliad Estyn cyn y Pasg. Maen braf adrodd i'r ymweliad fod yn un llwyddiannus. Disgwylir cyhoeddi yr Adroddiad ar Fai 23.

Mae presenoldeb disgyblion yn gwella, gyda cynnydd o 91% yn 2022 i 93% yn 2023. Mae hyn yn parhau yn isel mewn cymhariaeth a disgwyliadau cenedlaethol, ond mae'r ysgol wedi cydnabod hyn, ag wedi ei greu yn flaenoriaeth i wella rhifau presenoldeb o fewn yr ysgol.

Bu i nifer uchel o ddisgyblion di gymraeg ymuno a'r ysgol yn ddiweddar, a mae grwp siarter iaith disgyblion yr ysgol yn gweithio'n galed i atgyfnerthu'r iaith ar yr iard, ar y cyd gyda cydlynnydd siarter iaith yr ardal. Ar y gweill, mae wal ar yr iard gyda termau cymraeg chwaraeon, peldroed ayyb wedi paentio arni. Dros y flwyddyn addysg ddiwethaf, mae'r ysgol wedi ymgymeryd a rhaglen addysg 'darllen co', syn arwain y plant i ddarllen llyfrau Cymraeg o lyfrgell ar y we, gan ennill pwyntiau am ymdrech.

Staffio: Mae Lois Williams wedi mynd ar gyfnod mamolaeth, a wedi cael bachgen bach yn ddiweddar, Owi Seth.

Datblygwyd polisi disgyblu a amddiffyn plant a Diogelwch o fewn yr ysgol yn ddiweddar. Cafwyd hyfforddiant llawn i staff ar amddiffyn plant a diogelwch o fewn yr ysgol.

Un datblygiad ar draws y dalgylch yw bod dalgylch gyfan ysgol Botwnnog yn cydweithio ar ddatblygu addysg mathemateg, gan wneud y trosglwyddiad i Ysgol Botwnnog yn rhwyddach i'r disgyblion.

Mae'r cwt eto ag eto ble ailgylchir dillad ysgol, yn rhan o nifer o fentrau yr ymgymerodd yr ysgol a hwy flwyddyn hon. Yn unol a'i hamcanion i ganolbwyntio ar ddatblygu plant hyderus a mentrus.

Gweithiodd y plant ar y themau 'pobol syn helpu' a ffermio, a ddoe a heddiw.

Cysylltiadau Cymunedol/ymweliadau;

- casglu pwmpen i fferm Crugan
- Mynd I weld ffilm charlie and the chocolate factory I Pontio
- Ymweliad cyfnod sylfaen a siop fferm Abersoch, a gweld Sion Corn
- Sioe nadolig yn neuadd sarn
- Dewi wyn yn tynnu lluniau
- Dathlu wythnos beicio, cerdded neu sgwteri i'r ysgol

- Cystadleuaeth rygbi chwaraeon dalgylch Botwnnog
- Gethin Jones yn cynnal sesiwn peldroed
- Diwrnod plant mewn Angen yn casglu £209.67
- Ymweliad sion corn a'r ysgol
- Gwasanaeth nadolig gan nią ag Angela
- Cinio nadolig
- Taith o gwmpas y pentref I gymharu Botwnnog ddoe ag heddiw
- Ymweliad ag ysbyty Bryn beryl i roi cardiau codi calon
- Staff yr archifdy yn dangos hen greiriau
- Agor cwt eto ag eto
- Gwisgo dillad lliwgar I godi ymwybyddiaeth diogelwch ar y ffyrdd
- Fan llyfrgell I ddewis llyfrau
- Dathlu dydd miwsig cymru
-

Mae y cylch meithrin yn parhau i ddatblygu ag yn cynnig cyfle I allu asesu ag edrych ar ddatblygiad a deallusrwydd y plant, gan alluogi datblygu addysg I gwrdd a'r angen, a chyflwyno addysg o oed cynnar. Diolch i'r holl staff am eu hymroddiad a'u gwaith caled y flwyddyn hon.